Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Adfer Coetir (WRS)

## Gwaith Adfer PAWS

## Canllawiau ar Arfer Gorau

**Ffordd newydd o adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS)**

Coetir lled-naturiol hynafol wedi'u hailblannu'n llwyr neu'n rhannol â choed brodorol neu estron ac â'u gwerth ecolegol wedi dirywio yw Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol ('Planhigfeydd' - PAWS).[1] Mae maint y dirywiad yn y bioamrywiaeth yn amrywio'n fawr, gan ddibynnu pa rywogaethau gafodd eu plannu ac ar y drefn reoli. Er hynny, mae Planhigfeydd o'r fath yn aml wedi cadw nodweddion o ddiddordeb ecolegol a diwylliannol ac o'u rheoli'n sensitif ac yn briodol, mae cyfleoedd gwerthfawr i'w hadfer.

Mae eu hadfer yn broses hir a dylid ei chynnal fesul cam er mwyn cadw gorchudd y coetir, diogelu pridd ac weithiau, er mwyn cadw'r incwm o goed conwydd i gyfrannu at y costau adfer/rheoli. Mae gan Goedwigaeth Gorchudd Di-dor (CCF) / Systemau Coedwriaeth Isel eu Heffaith (LISS) rannau pwysig i'w chwarae, a'r rheini yw'r dulliau rheoli ac adfer y dylid ceisio eu dilyn os medrir. Amcan adfer Planhigfeydd yw cynnal, gwella ac ail-greu cymeriad coetir sy'n cynnal yr amrywiaeth o rywogaethau a gwasanaethau ecosystem a gollwyd pan gafodd y Planhigfeydd eu creu.

Rydym wedi cytuno ar fwy o hyblygrwydd yn y drefn adfer Planhigfeydd, er mwyn inni allu targedu'n hadnoddau ar y safleoedd hynny lle y bydd y gwaith adfer yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus ac yn fwy tebygol o esgor ar y manteision mwyaf. Dyma bellach ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at adfer Planhigfeydd.

Mae'r dull newydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y gymhareb coed llydanddail cynhenid a choed conwydd ar Blanhigfeydd ac mae'n seiliedig ar asesiad o Botensial Ecolegol y safle i gael ei adfer yn llwyddiannus. Dylai'r asesiad hwn fod yn rhan o Gynllun Rheoli Coedwig.

Mae'n rhaid gwarchod gweddillion y coetir hynafol a pharheir i annog gwaith adfer dilynol ar goetir brodorol, yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS).

Y dull newydd – sut mae'n gweithio

Os yw'r coetir yn Blanhigfa ar Safle Coetir Hynafol:-

1. Dylech gynnal asesiad o Botensial Ecolegol y safle fel rhan o'ch arolwg o'r safle presennol. Os medrwch, cynhaliwch yr arolwg cyn teneuo neu gwympo'r coed. Dilynwch yr wybodaeth a nodir yn Atodiad 1. Mae hyn yn gofyn i chi roi sgôr ar gyfer 3 maen prawf Pwysigrwydd Ecolegol y safle, a 4 maen prawf Datblygiad Ecolegol y safle. Uchel, Canolig ac Isel yw'r sgoriau posib ar gyfer pob maen prawf. Adiwch y sgoriau hyn i gael y 'ffit orau' ar gyfer y safle – dyma Botensial Ecolegol y safle.[2]

2. Marciwch weddillion y coetir hynafol a chynefinoedd cyfoethog ar fap y safle. Mae'n rhaid gwarchod y darnau hyn yn unol ag UKFS.

---

[1] Diffiniad Strategaeth Coetiroedd Cymru

[2] Mae hwn yn dilyn yr un egwyddor â FC Practice Guide – Restoration of Native Woodland on Ancient Woodland Sites (2003)

3. Aseswch y bygythiadau i adfer y safle. Bydd y bygythiadau hyn yn dylanwadu ar yr hyn a wnewch i adfer y safle, ond ni fydd yn effeithio ar ‘sgôr’ y Potensial Ecolegol (oni bai bod rhywogaethau estron goresgynnol ar y safle). Fe welwch y manylion yn Atodiad 1.

4. Bydd ‘sgôr’ y Potensial Ecolegol yn dangos faint o waith adfer sydd ei angen ar y safle, yr hyblygrwydd a ganiateir o ran y gymhareb coed llydanddail cynhenid a choed conwydd a’r cynllun ailstocio posibl. Mae’r manylion yn Atodiad 2.

5. Nod Atodiad 1 yw tynnu’ch sylw at y materion i’w hystyried wrth asesu Potensial Ecolegol safle. Nid yw’n golygu y dylech ddiystyru nodweddion penodol templed Cynllun Rheoli Coedwig, e.e. Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS) a fydd hefyd yn dylanwadu ar sut yr ewch ati i adfer y safle.

6. Dylech gynnwys canlyniadau’ch asesiad o’r Potensial Ecolegol a’r bygythiadau yn eich Cynllun Rheoli Coedwig i ddangos faint o waith adfer sydd ei angen ar y Blanhigfa.

7. Nid yw Potensial Ecolegol y safle yn effeithio ar ei statws PAWS fel safle coetir hynafol ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol.

8. Ni ddylech ystyried plannu cymysgeddau – dylai’r ffiniau rhwng lleiniau o goed llydanddail cynhenid ac o goed conwydd fod yn amlwg, a dylech blannu llwyni/coed llydanddail cynhenid i gryfhau gweddillion y coetir hynafol.

9. Dylech ei hailstocio â choed llydanddail sy’n gynhenid i’r safle. Mae’n dderbyniol hefyd caniatáu aildyfiant naturiol o goed llydanddail sy’n gynhenid i’r DU yn gyffredinol a choed llydanddail sydd wedi naturioli. Ffefrir coed o darddiad lleol a rhaid rhoi cyfiawnhad os daw cyfran o’r stoc o ardaloedd mwy deheuol.

**Atodiad 1**

## Asesu Potensial Ecolegol y Safle

Mae'r tablau canlynol yn nodi'r paramedrau ar gyfer asesu a sgorio potensial ecolegol Planhigfa ar Safle Coetir Hynafol.

Dylai'r cynlluniwr rheoli asesu cymaint o'r coetir â phosib i wneud yn siŵr bod nodweddion y coetir i gyd yn cael eu hasesu. Dylid nodi gweddillion, cynefinoedd cyfoethog a rhwydweithiau o gynefinoedd ar fap y safle yn ystod yr arolwg, a'u dangos ar y map terfynol.

Bydd angen ichi roi sgôr o naill ai Uchel, Canolig neu Isel ar gyfer pob un o feini prawf Pwysigrwydd Ecolegol a Datblygiad Ecolegol. Adiwch y sgoriau i roi'r 'ffit orau' ar gyfer y safle – sgôr y Potensial Ecolegol.

Gallech ddefnyddio graddfa DAFOR i'ch helpu i asesu niferoedd cymharol nifer o feini prawf. Cewch fwy o wybodaeth yn Atodiad 3.

Ar gyfer rhai meini prawf, mae'n ddefnyddiol penderfynu pa fath o goetir yr ydych am adfer y Blanhigfa iddo. Ceir arweiniad ar hyn yng Nghanllawiau Ymarfer y Comisiwn Coedwigaeth – 'Restoration of Native Woodland on Ancient Sites'.[3]

**Nid oes angen i bob pwynt bwled yn y meini prawf unigol fod yn bresennol er mwyn cael gradd arbennig. Nid bodloni pob un yw'r nod ond i roi arweiniad ichi ar ba sgôr i'w roi os yw'n bresennol.**

<u>Meini Prawf Pwysigrwydd Ecolegol</u>

Mae'r meini prawf hyn yn ystyried cyd-destun y safle yn y dirwedd ehangach. Rhowch sgôr o naill ai Uchel, Canolig neu Isel ar gyfer pob un o'r meini prawf hyn. Gweler Tabl 1.

### Dynodiadau

Bydd safle yn uchel ei werth os yw'n rhan neu wrth goetir brodorol sydd o bwys cenedlaethol neu ryngwladol e.e. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Dylai dynodiadau ymwneud ag ecoleg y Blanhigfa e.e. ni ddylai Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gafodd ei ddynodi ar sail ei ddaeareg effeithio ar sgôr pwysigrwydd ecolegol – ond gall fod yn berthnasol mewn rhan arall o'r cynllun rheoli am resymau rheoli eraill.

### Cynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth

Mae rhestr Adran 42 o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 wedi'i hymgorffori yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 tan y caiff ei hadolygu. Nod y maen prawf hwn

[3]Thompson, R.N., Humphrey, J.W., Harmer, R. a Ferris, R. (2003) Restoration of Native Woodland on Ancient Sites – FC Practice Guide (2003) –t.7/8.
(www.forestry.gov.uk/PDF/fcpg014.pdf/$FILE/fcpg014.pdf)

yw asesu'r potensial i gryfhau[4] cynefinoedd Adran 7 neu i roi mantais i rywogaethau adran 7. Ffocws y maen prawf hwn yw'r cynefinoedd â blaenoriaeth, gan fod y rhywogaethau â blaenoriaeth yn dibynnu ar bresenoldeb a chyflwr y cynefinoedd hyn. Gallai eu hadfer i fod yn fathau penodol o gynefinoedd coetir gyfrannu'n fawr at gryfhau cynefinoedd Adran 7, a'r cyfraniad posib hwnnw sy'n cyfrannu at y sgôr isod. Bydd safleoedd yn fwy gwerthfawr os oes ynddynt weddillion cynefinoedd neu rywogaethau â blaenoriaeth neu os ydynt yn ffinio â chynefinoedd/rhywogaethau â blaenoriaeth. Gweler Atodiad 4 am restr o gynefinoedd adran 7.

Gallai presenoldeb rhywogaethau â blaenoriaeth adran 7 gyfrannu at yr asesiad hefyd. Efallai y bydd gan swyddogion cadwraeth yr awdurdod lleol, y ganolfan gofnodion leol neu wefan Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol fwy o wybodaeth. Ond os ydy'r wybodaeth yn hen, mae angen rhoi mwy o flaenoriaeth i gryfhau cynefin y coetir.

**Rhwydwaith Cynefinoedd y Coetir**
Mae adfer ac ehangu'r rhwydwaith o gynefinoedd yn flaenoriaeth i gynyddu bioamrywiaeth. Bydd gwerth uwch i safle os yw'n rhan o rwydwaith. Os ydy'r blanhigfa wedi gweithredu fel rhwystr, bydd mwy o werth i waith adfer y safle.

**Tabl 1** Pwysigrwydd Ecolegol – cyd-destun y safle yn y dirwedd ehangach.

| Canllawiau ar gyfer rhoi sgôr Pwysigrwydd Ecolegol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maen Prawf** | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** | **Sgôr**<br><br>**Uchel/Canolig/Isel** |
| *Dynodiadau perthnasol (mewn coetir neu o'i gwmpas) e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd coetir/PAWS; Gorchmynion Diogelu Coed; ACA ac ati.* | • Y safle neu ardal gyffiniol wedi'i dynodi fel coetir lled naturiol.<br><br>• Bydd gwaith adfer yn cyfrannu'n sylweddol at ddiogelu a gwella'r safle dynodedig cyffiniol. | • Safle adfer yn agos at goetir dynodedig.<br><br>• Bydd gwaith adfer yn ei gwneud yn haws i reoli'r safle dynodedig cyffiniol. | • Nid yw'r safle yn agos i goetir dynodedig. Ni fydd y gwaith adfer o fudd i'r nodwedd dynodedig.<br><br>• Bydd y nodwedd dynodedig yn cael niwed o ganlyniad i waith adfer. | |

[4] Mae ecosystem gref yn iach ac yn gallu dygymod a chael ei haflonyddu gan gynnig manteision dros y tymor hir. Prif nodweddion ecosystem gref yw amrywiaeth, cysylltedd, maint, cyflwr a'r gallu i addasu. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 3 (nodiadau esboniadol) ac adran 4(i).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Cyfraniad posibl i gryfhau cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau â blaenoriaeth Adran 7*<br><br>*(Cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42 gynt)* | • Bydd ei adfer i fod yn fath penodol o goetir yn gyfraniad sylweddol at adfer cynefin Adran 7/ rhywogaeth Adran 7 posibl.<br><br>• Mae coetir cyffiniol yn gynefin â blaenoriaeth Adran 7; mae'n cynnwys/ addas i rywogaethau â blaenoriaeth Adran 7.<br><br>• Y nodweddion gweddilliol sy'n bresennol yn awgrymu cymeriad cynefin â blaenoriaeth. | • Mae'r safle yn gymharol ynysig; mae cynefinoedd lled-naturiol cyffiniol yn bellach i ffwrdd ond mae nodweddion gweddilliol yn awgrymu cymeriad cynefin â blaenoriaeth.<br><br>• Gellid gwella cynefinoedd trwy waith adfer rhannol i ddenu .rhywogaethau â blaenoriaeth Adran 7 | • Ni fydd ei adfer yn fath o goetir yn cyfrannu at adfer cynefin Adran 7. Mae'r safle yn ynysig;<br><br>• Nid oes nodweddion gweddilliol i awgrymu y gallai ategu cynefin â blaenoriaeth<br><br>• Nid yw adfer y safle yn debygol o fod o fudd i unrhyw rywogaethau Adran 7. | |
| *Rhwydweithiau cynefinoedd coetir Cymru* | • Bydd adfer y safle yn cyfrannu'n sylweddol at rwydwaith cynefinoedd y coetir.<br><br>• Os gadewir y safle heb ei adfer, bydd y cynefin estron yn cyfyngu ar weithrediad ecolegol y rhwydwaith. | • Bydd gwaith adfer yn cael effaith fach neu niwtral ar y rwydwaith cynefinoedd y coetir. | • Mae'r safle'n ynysig ac ni fydd gwaith adfer yn gwella cysylltedd. | |
| [**Ffynhonnell**: Addaswyd o Thompson *et al* (2003)FC Practice Guide] | | | | |

Meini Prawf Datblygiad Ecolegol

Mae hyn yn ystyried potensial y safle sy'n cael ei adfer. Dylid rhoi naill ai sgôr uchel, canolig neu isel i bob un o'r pedwar maen prawf. Gweler Tabl 2.

- Presenoldeb coed/llwyni lled naturiol aeddfed – mwya'n y byd o goed/llwyni sy'n gynhenid i'r safle, mwya'n y byd yw'r potensial i rywogaethau cysylltiedig ailsefydlu neu ailgoloneiddio.
- Presenoldeb coed cynhenid ifanc a chyflenwad hadau – bydd gwaith adfer yn haws os ydyn nhw eisoes yn bresennol. Mae angen i'r amrywiaeth a'r coed cynhenid ifanc fod yn briodol i'r safle i gael sgôr uchel.
- Fflora daear arbenigol coetir – bydd safle'n uwch ei werth os oes ynddo ddarnau mwy a mwy niferus o lystyfiant gweddilliol fydd yn fan cychwyn gwell ar gyfer ei adfer.
- Os ydy'r safle'n ffinio â choetir lled naturiol, bydd yn haws i rywogaethau'r coetir symud yn naturiol i'r safle ar ôl ei adfer. Bydd safle'n uwch ei werth os ydy gweddillion y safle'n debyg i'r coetir lled naturiol cyffiniol.

Gallwch ddefnyddio graddfa DAFOR i'ch helpu i asesu niferoedd cymharol nifer o feini prawf Datblygiad Ecolegol. Gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion.

Tabl 2. Datblygiad Ecolegol – y potensial i adfer y safle.

| **Canllawiau ar gyfer rhoi Sgôr Datblygiad Ecolegol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maen Prawf** | **Uchel**<br>**D = Trechaf**<br>**A = Toreithiog** | **Canolig**<br>**F = Niferus**<br>**O = Anghyffredin** | **Isel**<br>**R = Prin** | **Sgôr Uchel/Canolig/Isel** |
| Nifer, cyflwr ac amrywiaeth briodol coed a llwyni lled naturiol aeddfed gweddilliol y safle | • Dwysedd uchel o goed aeddfed<br>• Rhai coed hynafol (>20/ha)<br>• Amrywiaeth dda o wahanol rywogaethau o goed a llwyni cynhenid (rhai ohonynt yn brin yn lleol neu'n rhanbarthol) | • Y coed gweddilliol i gyd o'r un rhywogaeth<br>• Ychydig o goed gweddilliol (*e.e.* <5/ha)<br>• Amrywiaeth fach o goed a llwyni cynhenid<br>• Dim gweddillion o gymunedau epiffytig | • Dim coed cynhenid gweddilliol aeddfed<br>• Amrywiaeth fach iawn o goed a llwyni | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Gweddillion cymunedau epiffytig | | | |
| Presenoldeb coed ifanc cynhenid priodol a chyflenwad o hadau | • Coed ifanc cynhenid yn niferus<br>• Potensial da i gynhyrchu hadau o rywogaethau cynhenid ar y safle<br>• Nifer a dosbarthiad da o goed sy'n gynhenid i'r safle yn aildyfiant naturiol | • Coed ifanc cynhenid yn cael eu llethu ond yn debygol o ymateb i waith teneuo<br>• Rhywfaint o botensial i gynhyrchu hadau o rywogaethau cynhenid neu ar safle cyffiniol<br>• Ychydig o aildyfaint naturiol | • Ychydig iawn o goed ifanc cynhenid ac yn annhebygol o ddatblygu'n foddhaol ar ôl triniaeth<br>• Ychydig o botensial sydd i gynhyrchu hadau o rywogaethau cynhenid<br>• Nid oes aildyfiant naturiol | |
| Presenoldeb fflora daear arbenigol coetir ar y safle | • Amrywiaeth o leiniau cryf ar draws y safle<br>• Rhai rhywogaethau yn brin yn lleol neu'n rhanbarthol | • Ychydig o leiniau ar draws y safle<br>• Poblogaethau bach o un neu ddwy o rywogaethau | • Dim rhywogaethau arbenigol yn bresennol | |
| Coetir lled naturiol o ansawdd yn ffinio â'r safle | • Y safle adfer wedi ei amgylchynu'n llwyr gan goetir lled naturiol<br>• Amrywiaeth strwythurol dda yn y coetir cyffiniol<br>• Y coetir cyffiniol o'r un math â'r coetir adfer | • Coetir lled naturiol yn agos i rai rhannau o'r safle adfer<br>• Rhywfaint o amrywiaeth strwythurol (*e.e.* dau ddosbarth oedran)<br>• Mae'r coetir cyffiniol o fath tebyg i'r coetir adfer | • Dim coetir lled naturiol yn agos i'r safle adfer<br>• Coed o'r un oed<br>• Mae'r coetir cyffiniol o fath wahanol iawn i'r coetir adfer | |

Dylid rhoi sgôr Uchel, Canolig neu Isel ar gyfer pob maen prawf Pwysigrwydd Ecolegol a Datblygiad Ecolegol. Yna adiwch y sgoriau i gael y sgôr 'ffit orau' ar gyfer y safle – sgôr y Potensial Ecolegol.

Enghraifft: 2 Uchel + 4 Canolig + 1 Isel = Canolig

**Bygythiadau**

- Dylid nodi bygythiadau a'u hasesu, ond dylent lywio'r gwaith o flaenoriaethu camau rheoli yn y dyfodol, NID effeithio ar botensial ecolegol y safle.

- Rhywogaethau estron goresgynnol yw'r eithriad. Ond hyd yn oed wedyn, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff safle radd is oherwydd rhywogaethau estron goresgynnol a byddai'n rhaid cyfiawnhau hynny yn y cynllun rheoli.

| **Bygythiad** | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** |
|---|---|---|---|
| Gormod o gysgod | Coed sbriws heb eu teneuo; sbriws-hemlog y gorllewin, coed ffynidwydd a chonwydd eraill wedi'u teneuo neu heb eu teneuo | Llarwydd neu binwydd heb eu teneuo; coed sbriws wedi'u teneuo | Llarwydd neu binwydd wedi'u teneuo |
| Aildyfiant rhywogaethau estron | Trechaf, toreithiog | Niferus | Anghyffredin neu brin |
| Pori/Brigbori, gan gynnwys ceirw/gwiwerod | Toreithiog neu niferus | Anghyffredin | Prin |
| Rhywogaethau planhigion goresgynnol estron | Trechaf, toreithiog neu niferus | Anghyffredin | Prin |
| Rhedyn neu fieri | Trechaf | | Toreithiog, niferus, anghyffredin, prin |

**Atodiad 2**

## Hyblygrwydd yn lefel y gwaith Adfer

Fel rhan o'r dull newydd arfaethedig o adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, bydd 'sgôr' y Potensial Ecolegol a geir o Atodiad 1 yn dangos faint o waith adfer sydd ei angen ar y safle. Mae lefel yr hyblygrwydd o ran rhywogaethau estron yn y canopi yn cynyddu wrth i lefel y Potensial Ecolegol ostwng.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r cymarebau coed llydanddail cynhenid a choed conwydd arfaethedig, amcanion y gwaith adfer a'r disgwyliadau o ran cynllun i'r gwahanol lefelau o Botensial Ecolegol.

| | |
|---|---|
| Potensial Ecolegol Uchel | Amcan – Adferiad llawn y coetir llydanddail cynhenid, gyda'r nod o greu cyflwr ffafriol. Cynefinoedd cyfoethog a gweddillion yn cael eu diogelu a'u cryfhau, gyda photensial da i ehangu.<br>• Cofnodi cynefinoedd cyfoethog a gweddillion i'w diogelu – ar fap yn ddelfrydol.<br>• Coedwigaeth gorchudd di-dor – y dull rheoli y dylid ei ddilyn os medrir. 80-100% o'r canopi'n goed llydanddail cynhenid; dim mwy na 20% o'r canopi'n goed conwydd. Ni fydd yr elfen gonwydd yn ymledol na'n gysgod trwchus a'i diben fydd harddu'r dirwedd.<br>• Ailstocio – 100% yn goed llydanddail cynhenid - o waith plannu/aildyfiant naturiol. Cnydau o feithrinfa – coed llydanddail yn unig. Wedi hynny, ni fydd aildyfiant conwydd yn fwy nag 20% o'r holl aildyfiant.<br>Rhesymeg – Y safleoedd hyn sydd â'r potensial ecolegol uchaf i ymadfer ac sy'n cyfrannu fwyaf at y dirwedd ehangach a'r rhwydwaith cynefinoedd.. Dylai cyllid cyhoeddus ar gyfer rheoli'r safleoedd hyn ganolbwyntio ar waith adfer llawn a sicrhau cyflwr da er mwyn cynyddu'r manteision. |
| Potensial ecolegol canolig | Amcan – Planhigfeydd wedi'u hadfer / trosiannol – gwelliant mwy graddol tuag at gyflwr ffafriol *h.y.* cyflwr sy'n gwella (o leiaf 50% o'r canopi yn goed llydanddail cynhenid) gyda photensial yn y dyfodol i wella a'i hadfer yn llawn. Cynefinoedd cyfoethog a gweddillion wedi eu diogelu, eu clustogi a'u cryfhau gan rywogaethau llydanddail â'r potensial i ehangu.<br>• Cofnodi cynefinoedd cyfoethog a gweddillion i'w diogelu – ar fap yn ddelfrydol.<br>• Coedwigaeth gorchudd parhaus – y dull rheoli y dylid ei ddilyn os medrir. Teneuo i ffafrio gweddillion/coed llydanddail; plannu coed llydanddail i gyfoethogi'r safle.<br>• Ailstocio – o leiaf 50% yn goed llydanddail cynhenid trwy blannu newydd neu aildyfiant naturiol, yn canolbwyntio ar gryfhau/clustogi cynefinoedd cyfoethog/gweddillion/rhwydweithiau cynefinoedd. Sefydlu coetir llydanddail cynhenid a chonwydd yn unol ag ymarfer coedwriaeth da sy'n briodol i'r safle, darparu amodau i sicrhau bod o leiaf 50% o'r canopi'n goed |

| | |
|---|---|
| | llydanddail cynhenid. Y conwydd i fod ar wahân i'r gweddillion. Dim cymysgedd agos.<br><br>Rhesymeg – Cydnabod bod lleiniau o werth ecolegol yn y safleoedd hyn a'u bod yn cyfrannu at y dirwedd ehangach. Gellid datblygu hynny tra'n cadw'r llif incwm o'r elfen gonwydd mewn mannau priodol. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i berchnogion ddefnyddio coedwriaeth da i gynnal coetir llydanddail cynhenid o ansawdd da ac i gael incwm o goed conwydd tra'n cryfhau a gwella gweddillion a symud yn fwy graddol tuag at gyflwr da. |
| Potensial ecolegol isel | Amcan – Rheoli'r safle fel PAWS yn unol â UKFS, cynnal, diogelu a chryfhau gweddillion y coetir hynafol.<br><br>• Cofnodi cynefinoedd cyfoethog a gweddillion i'w diogelu – ar fap yn ddelfrydol.<br>• Coedwigaeth gorchudd parhaus – y dull rheoli y dylid ei ddilyn os medrir.. Teneuo i ffafrio gweddillion/coed llydanddail; cyfoethogi trwy blannu coed llydanddail<br>• Ailstocio trwy blannu neu aildyfiant naturiol yn unol â UKFS, i gynyddu amrywiaeth y rhywogaethau yn y safle. Coed llydanddail cynhenid gan ganolbwyntio ar glustogi a chryfhau cynefinoedd cyfoethog /gweddillion/rhwydweithiau cynefinoedd.<br><br>Rhesymeg – Cydnabyddiaeth eu bod yn cael eu cynnal fel PAWS, er mai ychydig o weddillion os o gwbl sy'n hysbys/weladwy, neu fod gwaith adfer yn anymarferol am fod gormod o rywogaethau estron goresgynnol yn bresennol, yn unol â UKFS a'u statws Rhestr Coetir Hynafol. Mae grantiau cyhoeddus yn dal i esgor ar fwy o amrywiaeth o rywogaethau, ac yn cryfhau gweddillion y coetir hynafol sy'n weddill i'w hailasesu yn y dyfodol. |

**Atodiad 3**

**DAFOR – cymorth asesu**

Mae graddfa DAFOR yn ddull cydnabyddedig o fesur niferoedd gwahanol fathau o lystyfiant. Cymerwyd o canlynol o ganllaw CNC ar gyfer Asesiad Llinell Sylfaen Coetiroedd Hynafol. Dylai'r arolygydd geisio asesu'r holl weddillion yn y coetir er mwyn cael darlun llawn o'i botensial ecolegol.

Ar gyfer Meini Prawf Datblygiad Ecolegol:-

**Tabl A:**

*Meini Prawf Datblygiad Ecolegol* – Nifer, cyflwr ac amrywiaeth y coed a'r llwyni aeddfed lled-naturiol ar y safle.

| Graddfa DAFOR | Diffiniad |
|---|---|
| Trechaf (D) | >80% yn Frodorol |
| Toreithiog (A) | 51-80% yn frodorol |
| Niferus (F) | 21-50% yn Frodorol |
| Anghyffredin (O) | 10-20% yn Frodorol |
| Prin (R) | <10% yn Frodorol |
| N/A | Dim canopi |

**Tabl B**

*Meini Prawf Datblygiad Ecolegol* – Presenoldeb coed brodorol ifanc, eginblanhigion a chyflenwad hadau. (Diffinnir coed ifanc fel coed mwy na 1.3m ac â diamedr ar lefel y frest o lai na 7cm; mae eginblanhigion yn llai na 1.3m o uchder).

| Graddfa DAFOR | Diffiniad |
|---|---|
| Trechaf (D) ) | Bwlch o 1.3 m neu lai rhwng pob un |
| Toreithiog (A) | Bylchau o 3 m |
| Niferus (F) | Bylchau o 5 m |
| Anghyffredin (O) | Bylchau o 15-20 m |
| Prin (R) | Bylchau o >50 m |
| N/A | Dim coed ifanc / gorchudd o nodwyddau yn unig ar y llawr |

**Tabl C**

*Meini Prawf Datblygiad Ecolegol* – Presenoldeb fflora daear arbenigol coetir ar y safle. Mewn rhai ardaloedd, y rhan fwyaf ohonynt yn y Gorllewin, mae'n bwysig nodi mai cymunedau o fwsoglau a bryoffitau yw fflora daear mewn cynefinoedd fel coetiroedd deri'r ucheldir (neu goetiroedd Deri'r Iwerydd fel y'u gelwir). Gallai'r haenau o blanhigion fasgwlar fod yn denau.

| Graddfa DAFOR | Diffiniad |
|---|---|
| Trechaf (D) | Y llystyfiant /rhywogaethau trechaf yn weladwy iawn, fel arfer yn fwy na 70% o'r gorchudd. |
| Toreithiog (A) | Llawer o unigolion neu leiniau'n weladwy, fel arfer 30-50% o'r gorchudd |
| Niferus (F) | Nifer o unigolion neu ychydig leiniau, fel arfer 10-20% o'r gorchudd |
| Anghyffredin (O) | Llain fechan neu ychydig unigolion; fel arfer rhyw 5-8% o'r gorchudd. |

| Graddfa DAFOR | Diffiniad |
|---|---|
| Prin (R) | Un llain fach iawn neu blanhigion unigol, fel arfer rhyw 1-3% o'r gorchudd. |

**Bygythiadau –** Gellir defnyddio DAFOR i asesu rhai bygythiadau i adfer Planhigfeydd:-

- Aildyfiant naturiol planhigion estron – fel arfer coed conwydd, yn enwedig Sbriws-Hemlog y Gorllewin. Defnyddiwch dabl B uchod.
- Planhigion estron goresgynnol – Gallant fod y rhywogaeth drechaf yn haenen y llwyni, gan greu tir diffrwyth. Defnyddiwch dabl C uchod.
- Rhedyn/Mieri – gall y ddau lethu fflora daear coetir trwy eu cysgodi. Defnyddiwch dabl C. Nid yw mieri na rhedyn yn fygythiad oni bai mai nhw yw'r rhywogaethau trechaf.

**Atodiad 4**

## Adran 7 – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Rhestr o gynefinoedd pwysig iawn at bwrpas cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth yng Nghymru.

Pwysig: Mae'r rhestr, sydd union yr un fath â'r rhestr flaenorol yn adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, yn destun ymgynghoriad gan NCN.

| **Cynefin** | **Cynefin sy'n Flaenoriaeth** |
|---|---|
| **Daearol, arfordirol a dŵr croyw** | |
| Coedwig lydanddail, gymysg ac ywen | Perllannau traddodiadol |
| | Porfa goediog a pharcdir |
| | Coedwig dderi yn yr ucheldir |
| | Coedwig ffawydd ac ywen ar dir isel |
| | Coedwig ynn gymysg ar dir uchel |
| | Coedwig wlyb |
| | Coedwig gollddail gymysg ar dir isel |
| Nodweddion llinellol a therfynau | Gwrychoedd |
| Tir âr a garddwriaethol | Ymylon caeau ŷd |
| Glaswelltir wedi ei wella | Tir pori corslyd ar forfa arfordirol a gorlifdir |
| Glaswelltir niwtral | Gweirgloddiau yr iseldir |
| Glaswelltir calchaidd | Glaswelltir calchaidd yr iseldir |
| | Glaswelltir calchaidd tir uchel |
| Glaswelltir asidaidd | Glaswelltir asidaidd sych yr iseldir |
| Gweundir o gorlwyni | Gweundir yr iseldir |
| | Gweundir yr ucheldir |
| Ffen, cors a chors siglennaidd | Trylifiadau, ffeniau a chorsydd siglennaidd ar dir uchel |
| | Ffeniau ar dir isel |
| | Porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd |
| | Gwelyau cyrs |
| Corsydd | Cyforgors ar dir isel |
| | Gorgors |

| | |
|---|---|
| Cynefinoedd mynyddig | Gweundir a phrysgwydd helyg ar dir mynyddig |
| Afonydd a nentydd | Afonydd |
| Dŵr llonydd agored a chamlesi | Llynoedd oligotroffig a dystroffig |
| | Pyllau dŵr |
| | Llynnoedd mesotroffig |
| | Dyfroedd llonydd ewtroffig |
| | Dyfroedd a gyflenwir gan ddyfrhaen, ac sy'n arddangos amrywiadau naturiol yn lefel y dŵr |
| Craig fewndirol | Cynefinoedd brigiadau craig a sgri mewndirol |
| | Glaswelltiroedd Calaminaraidd |
| | Brithwaith o gynefinoedd agored ar dir a oedd cynt wedi ei ddatblygu |
| | Palmentydd calch |
| Craig uwch-lanw | Clogwyni a llethrau arforol |
| Gwaddodion uwch-lanw | Twyni tywod arfordirol |
| | Gro arfordirol gyda llystyfiant |